

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Y Pennaeth Gwasanaeth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Pecyn Recriwtio

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent



Annwyl Ymgeisydd

Swydd: Pennaeth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA).

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymgeisio am y swydd allweddol hon.

Mae ACGChC yn cael ei ffurfio ar sail partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod arweiniol ac yn cydweithio â'i bartneriaid i ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw priffyrdd rheolaidd ac adweithiol. Mae ACGChC hefyd yn gweithio'n agos gyda'i gadwyn gyflenwi sector preifat estynedig i gyflawni rhaglenni gwaith cyfalaf. Yn ACGChC, rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn ffordd fwy diogel, gwyrddach a mwy dibynadwy.

Mae ACGChC yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf hollbwysig y wlad. O seilwaith cymhleth, anghenion trafnidiaeth cynyddol, a newid yn yr hinsawdd - maent yn cyfuno arloesedd, arbenigedd, a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch arwain gwaith a fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaus ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Mae ACGChC wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Rydym felly am benodi unigolyn sy'n arweinydd creadigol ac arloesol, sy'n deall natur unigryw partneriaeth ACGChC fel sefydliad ac sy'n gallu arwain ein tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar. Os hoffech gael sgwrs anffurfiol ar unrhyw agwedd o'r swydd mae croeso i chi gysylltu â Geraint Owen Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd ar 01286 679923 neu geraintowen@gwynedd.llyw.cymru. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir, Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol.

# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Y Pennaeth Gwasanaeth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

**Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r un i chi. Rydym yn chwilio am Bennaeth Gwasanaeth i gynorthwyo gyda rheolaeth strategol sefydliad ffyniannus a deinamig.**

**Cyflog:** HS2 £79,863 - £88,072

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Bangor / Conwy / Helygain / Llandrindod

**Dyddiad cau:** 25/04/2024

**Dydd Iau 10y.b.**

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Rydym yn chwilio am uwch reolwr profiadol ac arloesol sydd â Pheiriannydd Siartredig gyda chefndir mewn peirianneg priffyrdd i arwain Uwch Dîm Rheoli'r Asiantaeth ac i ddarparu cyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth. Byddwch hefyd yn gyfrifol am reoli Partneriaeth ACGChC a ffurfiwyd o wyth Awdurdod Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ac yn adrodd i Gydbwyllgor ACGChC. Byddwch yn arwain tîm amlddisgyblaethol o dros 240 o staff gan reoli'r swyddogaethau canlynol ar ran yr Asiantaeth ac yn unol â Chytundeb Asiantaeth Reoli Llywodraeth Cymru (WGMAA):

- Bod yn gyfrifol am gyllideb gyffredinol flynyddol o tua £90m
- Swyddogaethau gweithredu a chynnal a chadw rhwydwaith ar gyfer tua 1100km o gefnffyrdd ffyrdd deuol ac sengl a thros 2000 o strwythurau priffyrdd.
- Rhaglen cyflawni cyfalaf LlC ar gyfer adnewyddu asedau, prosiectau mawr a chynlluniau uwchraddio
- Rheoli Twneli'r A55 ac Asedau Systemau Trafnidiaeth Deallus Rhwydwaith
- Ystafell Reoli Canolfan Rheoli Traffig Gogledd Cymru
- Swyddogion Traffig – rheoli argyfwng/digwyddiad ar y ffordd, cefnogi'r Gwasanaethau Brys
- Traffig Cymru – Gwasanaeth Cyfathrebu Cymru Gyfan, Rhwydwaith Gwybodaeth
- Cynrychiolydd Adrannol ar gyfer contract Dylunio, Ariannu a Gweithredu (DBFO) yr A55 gydag UK Highways Ltd a Llywodraeth Cymru



# Cyfrifoldebau (detholiadau allweddol o'r disgrifiad swydd llawn )

**Swyddogaeth Arweinyddol**

- Darparu arweiniad, rheolaeth, blaengynllunio ac arbenigedd yng nghyfeiriad strategol yr Asiant, a chyfarwyddo ac arwain Uwch Dîm Rheoli'r Asiant i ddiwallu gofynion WGMAA t, Cytundeb Partneriaeth ACGChC a pholisïau ac arferion Cyngor Gwynedd.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau datblygiad cadarnhaol yr Asiant.
- Rhoi arweiniad i staff yr Asiant wrth weithio ar y nod o wneud ACGChC yn Asiant enghreifftiol sy'n bodloni ac yn rhagori ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru (LlC). Datblygu a hyrwyddo diwylliant y sefydliad.

**Llywodraethu**

- Rheoli’r rhyngwyneb rhwng yr Asiant a LlC, gan gynnwys gweinyddu WGMAA, y Cytundeb DBFO, a Mentrau Strategol eraill fel sy’n ofynnol gan LlC.
- Hyrwyddo, datblygu a chynnal partneriaethau effeithiol gyda Darparwyr Gwasanaethau'r Asiant, gan gynnwys gweinyddu Cytundeb Partneriaeth ACGChC, Cytundebau Fframwaith a chontractau unigol.
- Cynrychioli'r Asiant a'r Awdurdod Arweiniol ar Grŵp Llywio'r Asiant a Chyd-bwyllgor Gogledd a Chanolbarth Cymru, a pharatoi a chyflwyno adroddiadau yn ôl yr angen.
- Rheoli gwaith a gweinyddiaeth yr Uned Rheoli Cefnffyrdd i sicrhau ei bod yn cyflawni holl gyfrifoldebau rôl Cynrychiolydd yr Adran ar gyfer contract DBFO yr A55 ym Môn.

- Cynrychioli’r Asiant ar Grwpiau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol sy’n delio â pholisïau, materion technegol, llywodraethu, cyllid a diogelwch fel sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a/neu randdeiliaid eraill. Cynrychioli buddiannau’r Asiant yn gyffredinol, gyda phob rhanddeiliad, yn cynnwys y wasg a’r cyfryngau, ac mewn cyfarfodydd gyda, er enghraifft, Cynghorau Cymuned a grwpiau eraill â diddordeb.

**Polisïau a Gweithdrefnau**

- Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu strategaethau, polisïau a safonau'r Asiant, i ddarparu gwasanaethau Cefnffyrdd yng ngogledd a chanolbarth Cymru, a chynrychioli’r Asiant ym mhob ymwneud â LlC a phob rhanddeiliad arall.

**Rheolaeth Gyllidebol**

- Cyfarwyddo a rheoli rheolaeth cyllidebau'r Asiant i sicrhau y darperir gwasanaeth effeithiol, effeithlon a chyson ar gyfer rhwydwaith Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gwbl unol â gofynion WGMAA a Gorchmynion Sefydlog a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Arweiniol.

**Darparu Gwasanaeth**

- Gweithio gydag Uwch Reolwyr LlC i ddatblygu, gweithredu a chynnal Strategaethau Rheoli Asedau ar gyfer pob agwedd ar y rhwydwaith cefnffyrdd a chyfrifoldebau yng ngogledd a chanolbarth Cymru.
- Arwain ar welliant parhaus, gan gynnwys datblygu, a dulliau arloesol o ymdrin â threfniadau darparu gwasanaeth, arferion gwaith, gweithdrefnau a gweithgareddau, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd yn barhaus a lleihau costau yn unol â gofynion LlC.
- Gweithredu polisïau amgylcheddol i gefnogi lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd.
- Datblygu a chynnal strategaeth gaffael gadarn, gynaliadwy, a rheoli caffael holl waith a gwasanaethau cefnffyrdd gogledd a chanolbarth Cymru gan ddefnyddio gweithdrefnau tryloyw ac effeithlon a sicrhau arloesedd a gwelliant parhaus yn effeithiolrwydd y gwasanaeth a gwerth am arian.
- Datblygu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd cadarn ar gyfer pob maes darparu gwasanaeth, gan gynnwys prosesau archwilio priodol.
- Monitro perfformiad darparwyr gwasanaeth i gyrraedd targedau perfformiad a chymryd unrhyw gamau adferol angenrheidiol os bydd tangyflawni.
- Hwyluso a hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau Awdurdod Partner gyda'r bwriad o rannu arfer gorau, gwella effeithlonrwydd gwasanaethau ac annog rhwydweithio ar y cyd.

**Digwyddiadau ac Argyfyngau**

- Cynnal a datblygu strategaethau a gweithdrefnau i ymateb i argyfyngau ac i sicrhau cydweithrediad priodol â’r gwasanaethau brys, yr awdurdodau lleol ac asiantaethau a gwasanaethau eraill y Llywodraeth.
- Cynrychioli'r Asiant ar lefel Rheoli Aur wrth reoli digwyddiadau mawr.
- Goruchwylio rheolaeth a datblygiad y gwasanaeth Swyddog Traffig LlC, gan gynnwys swyddogaethau Ystafell Reoli NWTMC.
- Sicrhau bod yr Asiant yn delio'n briodol ag ymholiadau dydd i ddydd a brys.
- Cynrychioli'r Asiant yn y Gweithgor Diogelwch Trafnidiaeth Aml-asiant Cenedlaethol (MATSWG).

**Yr Uned Rheoli Cefnffyrdd**

- Cymryd cyfrifoldeb terfynol am lesiant staff yr Uned Rheoli Cefnffyrdd, gan gynnwys anghenion hyfforddi a datblygu i gefnogi cynllunio olyniaeth o fewn yr Asiant.
- Sicrhau bod y sefydliad yn addas at y diben, a bod yn atebol am ei berfformiad wrth fodloni gofynion LlC.

**Systemau**

- Sicrhau bod yr holl systemau busnes, ariannol, ansawdd a thechnegol angenrheidiol yn eu lle ar gyfer gweithrediad effeithiol yr Asiant ac yn unol â gofynion LlC.

- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor.  Sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data.

**Iechyd a Diogelwch**

- Cymryd cyfrifoldeb terfynol am weithredu deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch o fewn yr Asiant a sicrhau bod Iechyd a Diogelwch yn derbyn ystyriaeth lawn ym mhob agwedd o waith yr Asiant.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

**Hanfodol**

Arweinyddiaeth, brwdfrydedd a'r gallu i ysgogi eraill.
Hunan-ymwybodol, emosiynol ddeallus.
Gwydn a phendant.
Cydweithredol.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

**Hanfodol**

Gradd mewn pwnc perthnasol.
Peiriannydd Siartredig
Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch priodol ar gyfer Uwch Reolwyr

## Profiad perthnasol

**Hanfodol**

Profiad sylweddol ôl-siartredig gydag ymglymiad sylweddol mewn asedau isadeiledd a rheoli gweithredol ar lefel uwch. Profiad sylweddol o reolaeth ariannol, systemau a gweithdrefnau ariannol.
Hanes llwyddiannus o reoli niferoedd sylweddol o staff ar draws ystod eang o ddisgyblaethau, rhaglenni arwyddocaol, cyllidebau, a gweinyddu Contractau.
Profiad o weithredu newid a gwelliant.
Profiad o weithio mewn maes gwleidyddol.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

**Hanfodol**

Gwybodaeth eang a dealltwriaeth o beirianneg a chynnal a chadw priffyrdd, yn cynnwys safonau technegol a gweithdrefnau.
Gwybodaeth helaeth am reolaeth weithredol gan gynnwys ymateb i ddigwyddiadau a swyddogaethau rheoli.
Dealltwriaeth fanwl a gwerthfawrogiad o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys rheoliadau CDM.
Y gallu i gydgysylltu a negodi gyda rhanddeiliaid ar bob lefel.
Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol.
Tystiolaeth o allu datrys problemau.
Trwydded yrru lawn, ddilys yn y DU.

## Gofynion ieithyddol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol a'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 31.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.